**Gŵyr**
(20240806)



I dwyn, i dwyn amdani - mi weli'r
Cymylau yn codi;
Cans mwynhau mae llwybrau'r lli',
Hir oes i haul Rhosili!

(Cerdded o Benmaen i Rosili gyda H., â'r tywydd yn gwella'n araf deg pob cam.)

**Nefoedd**
(20240804)



Awyr iach y gilfach gudd - cwr o haf
Y criafol llonydd;
Cynt dilyn hynt crognentydd:
Yn y man, Llyn Y Fan fydd!

**CôrRhuthun**
(20240804)

Gyru a gyru o gariad - hynt prawf
Pontypridd ein bwriad:
Down o Glwyd ar hyd ein gwlad
A gwenu drwy'r datganiad!

(Y côr yn cystadlu ym Mhontypridd 'ddoe.)

**BanGyhirych**
(20240730)

Pen y dyffryn, bryncyn braf - â bwrlwm
'Nol i'r cwm y camaf;
Copa rhydd ar hirddydd haf:
O Gyhirych, fe'th garaf.

(Teithio 'nol i Gwm Tawe.)

**Gwahoddiad**
(20240728)

Â chariad, ar d'alwad di - dâf unwaith,
Dâf eilwaith i'th foli;
Â diolch, caf fy ngolchi'n
Dy wydd, f'arglwydd: dyma fi.

(Clychau Eglwys San Pedr yn chwarae'r dôn Gwahoddiad y bore 'ma am 9yb wrth i fi fynd i redeg.)

**Oferedd**
(20240728)

Aer goll, Abr'am yw'r gwyllo - â gynau
Dy genedl yn gwingo;
Â'r anfad Gazad o'i go'
Ym mŵm, bŵm, bŵm y bomio.

**Gwyliau!**
(20240720-7)

Tywydd sych! Gwych ein gochawn! Lle hynod,
Llawenydd yr uniawn!
I Harlech awn yn orlawn
Er ranu haul ein prynhawn!



O Glwyd fel haid i Glydfan - yn deulu
Hyd y dolydd sidan;
Daearu'n dywod arian
Wyliau glwys 'da'r weilgi lân.




Drwy'r llwyni, at y twyni teg - ysu
Rhoi colur i'r coleg
Sy'n fler iawn, rhyw sen fel rheg
Yn gyru ma's o'r gareg.



Nudd fore o ddiferion ag awr goeth
Ger Rhiw Goch yn twrio'n
Y gwynt a'r gwlaw daw yn don
Er mwynhau'r meini hirion.



Uwch y bae mae glanach bod - uwch y bae,
Achau bobl, rhyfeddod
Lle hynafol, nwyfol nod
Heulwen Muriau Gwyddelod



A rhaid, rhaid mynd i grwydro - a Gwglo
Gwagle mewn maes parcio!
O mor bur miri Bermo;
Lloni'r hen Frymi mae'r fro!



Cymysgu'r gwir â hiraeth - mae'r crotyn
Sy'n erfyn ei arfaeth;
Diogel ei waredigaeth
Heno'n mynd am dro ar draeth.



A 'nawr, i Gricieth â ni  - cawn adwy,
Cawn odiaeth, cawn oedi
Un prynhawn a'r gwlaw'n gloywi'n
Hatgofion llon ger y lli'.



Coffi, a'n 'ddoe mewn cyffion - rhag dwrw
Cân elw, traealon
Trasiedi'r llechi, yn llon
I Ranu han Gwern Einion.



Lôn o dwyni i Landanwg - eglwys
Yn eglaer anamlwg
Rhag y wên, y glec a'r gwg,
I gelu rhag pob golwg.




Traeth arian, culfan ein cwest - wyneb iach
Morfa Bychan, lluest;
Anodd, â bod yn onest
Curo hwyl gwyl Porth Y Gest.



Hen bryd i weld ein breudod - hawlio trig
Ôl traed yn y tywod;
'R unig hedd eirig i ddod
Troes f'einioes at y fanod.

Gwlyb ai sych, gwych ein gochawn! Teulu teg
Ag anrheg o winrawn
O Harlech, 'sgubor orlawn
Er ranu hin pob prynhawn!

(Wythnos fendigedig yn Harlech!)

**MyndIRedeg**
(20240719)

Ac unwaith eto'n hwylio'r ne', nefoedd
Ein hafod a'n hendre;
Grym diflino'n llywio'r lle:
Wyneb aur haul y bore.

(Mae'n byd yn wirioneddol anhygoel.)

**BetwsYCoed**
(20240718)

O Grist daw y nodau'n graidd - nefol dôn
Y felodi cydair;
Oedi cu newid cywair:
Ysaf wefr Y Santes Fair.

(Chwarae organ Eglwys Y Santes Fair yng nghyngerdd MM.)

**Haf?**
(20240713)

Hafol wedd canol flwyddyn - noda'r hin
Y daw'r haul i'r dyffryn;
Ond Esgob, â'r gwlaw'n disgyn
O'r braidd mai hafaidd yw hyn!

(Tywydd gwlyb!)

**YGwningen**
(20240710)

Yno, trwy drwch eithinen cilia hon
'Nol i'r clawdd yn llawen;
Drwy'r glaswellt â fel mellten;
Llona'r ddôl a'i hôl fach wen.


(Cwningod ar y ddol.)

**MaeD'eisiau**
(20240709)

Doethaf Iôr, bendithia fi â dy law,
Swn dy lais yw 'ngweddi;
Duw mawr, pob awr a beri
Mae d'eisiau, mae d'eisiau di.

(MM yn cynal cymgerdd ym Metws Y Coed nos Sul, a minau'n dewis emynau.)

**Gwen**
(20240706)



Un clên ei gwên yw ein Gwen - wrth wenu,
Un cu yw ein cywen;
Fy mêt, un grêt yw'r groten,
Del a ffêl yn dal ei phen!

(G. yn gallu dal ei phen.)

**EtholiadCyffredinol**
(20240629-0705)

Cur dyfal sy’n cynnal ein cerdd ymlaen
Am lais yn y gyngerdd;
Cytgor, angor ein hangerdd
I’r eitha’ dros Walia werdd.

Ond gorau pleidlais wladgarol â budd
Y bobl yn y fantol?
Taga pleidlais dactegol
Y Tôri a’i ffansi ffôl!

Ias tynu’r wal las i lawr a gweled
Buddugoliaeth enfawr
O ddilyn chwithaidd alaw:
Rhaid newid, newid yn awr.

Tory goon, you’re soon for the sack - once tall,
Unstuck, you’re just blue-tack;
Are you sane, Mister Sunak?
My joy, boy, to see your back!

Afraid noson y cyfri wylo chwaeth
Hil y chwith yn colli!
Â thwf gwŷr Llafur fel lli’:
Arswyd, tiriwyd y Tôri!

Gwawr o les bore blaengar lu - hen bryd
I Brydain, i Gymru;
Llafuraidd llyw yfory,
Gwewyr y Ceidwadwyr du.

O ffars cyntaf i’r felin ffôl - hel moes,
Hel oes adeiladol
A budd ffordd newydd yn ol
Rhinwedd pleidlais gyfranol..